

# CLWB MYNYDDA CYMRU

CYFARFOD BLYNYDDOL 2010 – 6:15 y h., 13 TACHWEDD

Gwesty'r "Oakley Arms", Maentwrog.

1. **Croesawodd** y Cadeirydd, Morfydd Thomas, y 63 aelod a oedd yn bresennol i'r Cyfarfod. Diolch i Alwen a Ceri roedd gennym leoliad delfrydol, Cymraeg ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol. Roedd nifer o lwyddiannau i'w dathlu yn y 12 mis a fu, ond un cwmwl mawr du, sef damwain angheuol Llew Gwent ar 8 Mai. Ar gais y Cadeirydd roedd munud o dawelwch er cof am Llew. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd dau swyddog yn ymddeol, sef John Arthur fel Trysorydd a Clive James fel Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth.
2. **Ymddiheuriadau** : 3
3. **Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth.** Gan fod y deiliad blaenorol wedi gwasanaethu'r Clwb am saith mlynedd, roedd amser iddo hefyd sefyll i lawr ar ôl saith mlynedd. Yn ei farn o roedd cenhadaeth y Clwb yn un syml : "Hyrwyddo datblygiad mynydda yng Nghymru trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg". Fodd bynnag er mwyn gweithredu'r nôd bydd rhaid creu polisiau syml a chilir er mwyn hyfforddi aelodau'r Clwb ar gyfer y dyfodol a chreu cynllun er mwyn medru dylanwadu ar fynydda yng Nghymru a statws y Gymraeg. Yn yr oes electroneg nid oedd angen i Bwyllgor gwrdd yn aml, ond dirprwyo ymddiried i ddau neu dri weithredu elfennau o waith y Pwyllgor yn uniongyrchol.
4. **Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau.** Bu dros drigain diwrnod o weithgaredd yn y De, yn y Gogledd, yn y Canolbarth, dringo, scrambling a phreswyl (5 achlysur). Bu gweithgaredd yng Ngŵyl Ffilmiau Mynydda Llanberis (a lansiad llyfr Cymraeg ar hanes mynydda) a phresenoldeb yn Eisteddfod Blaenau Gwent. Roedd e'n dra diolchgar i'r sawl a oedd yn anfon teithiau iddo ymlaen llaw.
5. **Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan.** Bu 8,300 o ymweliadau i'r Wefan gan 2,100 o unigolion o draws y byd. Hyd yma nid oedd llawer yn defnyddio'r "Facebook". Ceisir diweddarau'r safle yn wythnosol. Diolchodd i'r sawl fu'n cywiro'r wybodaeth. Yn anffodus prin oedd y wybodaeth newydd ar gyfer y "Mynyddiadur".
6. **Adroddiad y Trysorydd.** Erbyn hyn roedd 315 o aelodau. Roedd yr Adroddiad Ariannol yn hunan esboniadol, gan gofio taliad yn 2008-2010 a oedd cyfateb i golledion yn 2009-2010. Derbyniwyd yr Adroddiad yn unfrydol.
7. **Etholodd y Swyddogion canlynol:**
  - a. **Cadeirydd** : Arwel Roberts
  - b. **Is-gadeirydd** : Rhys Dafis
  - c. **Trysorydd** : Gareth Roberts

- d. **Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth** : Iolo Roberts
  - e. **Ysgrifennydd Gweithgareddau** : Maldwyn Roberts
  - f. **Ysgrifennydd y Wefan** : Iolo ap Gwynn
8. **Ethol Aelodau'r Pwyllgor** : Etholwyd y canlynol hen bleidlais :

Marion Hughes, Alwen Williams, Dafydd Thomas, Guto Evans, Anita Daimond, Siân Shakespeare.

Gan roedd un sedd rydd ar y Pwyllgor, gofynnodd am wirfoddolwyr i gysylltu â'r Cadeirydd

Yn **ei anerchiad** cyntaf talodd y Cadeirydd newydd diolchiadau i'r cyn Gadeirydd, Morfudd Thomas. Er mwyn peidio â llithro yn ôl, bydd rhaid i'r Clwb symud ymlaen. Un o'i blaenoriaethau fydd hybu hyfforddiant, yn arbennig trwy'r Bartneriaeth. Roedd gan yr aelodau doniau di-ri a bydd rhaid i'r Rhaglen adlewyrchu anghenion yr aelodau.

9. Penodwyd Gareth Pierce Owen fel **Archwilydd**.
10. **Nid oedd unrhyw cynnig ffurfiol a hysbyswyd ymlaen llaw.**
11. **Trwy ganiatâd y Cadeirydd** gofynnodd Alun Roberts am ganiatâd i drefnu taith noddedig yn enw'r Clwb o amgylch ffin dalgylch Eisteddfod yr Urdd, Eryri 2012. Nid oedd gwrthwynebiad. Dangosodd Anita Daimond ddefnydd o un o'r llochesi grŵp newydd a brynwyd gan y Clwb.

Yn dilyn cinio ardderchog bu sgwrs a lluniau ar gampau eitha